

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **14 Tachwedd 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-11/16: Presennol**

Cadeirydd Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng. Elizabeth Regan; Cyng Eirwyn Williams; Cyng Sian Williams. Clerc – Dr Catrin Jones.

### **2-11/16: Ymddiheuriadau**

Cyng Elizabeth George; Cyng. Henry Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng. Wayne Roberts.

### **3-11/16: Datgan diddordeb**

Cyng Eirwyn Williams (item **8-11/16: d** C16/1348/35/LL Min y Gaer)

Cyng. Elizabeth Regan (item **17-11/16** Llyfrgell Criccieth)

### **4-11/16: Siaradwr Gwadd – Gwasanaethau Cyngor Gwynedd a'u trosglwyddol**

Croesawyd Anwen Davies (Rheolwr Cyswllt Mentrau Cyngor Gwynedd) i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad am wasanaethau cyfredol y Cyngor yng Nghriccieth. Diolchodd i'r Cyngor tref am ei hymateb i ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar doriadau cyhoeddus. Eglurodd y bydd ymateb maes o law gan Gyngor Gwynedd ond bod oedi oherwydd nad oedd nifer bychan o gynghorau cymuned wedi ymateb eto i'r ymgynghoriad.

Rhannwyd cynlluniau cyfredol Cyngor Gwynedd ar dorri gwair yng Nghriccieth: yr ardaloedd a oedd yn cael eu torri dair gwaith y flwyddyn, yr ardaloedd chwaraeon ac ardaloedd yn cael blaenoriaeth a oedd yn cael eu torri chwech gwaith y flwyddyn. Ymddiheurodd nad oedd costau am y gwaith yma ar gael eto, ac mi gafwyd sicrwydd y byddai y wybodaeth yma yn cael ei ddanfôn at y Clerc cyn gynted â phosib ac yn bendant erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor. Yn y drafodaeth ddilynol, mynegwyd consyrn gan yr aelodau presennol am safon gwaith y torri gwaith eleni a'r ffaith nad oedd y gwair yn cael eu gasglu. Roedd hyn yn gwyn gan drigolion y dref yn ogystal. Eglurwyd y byddai y Cyngor yn barod i drafod gyda Chyngor Gwynedd i gymeryd cyfrifoldeb am dorri y gwair, ar delerau i'w cytuno gyda'r Cyngor. Esboniwyd y byddai yn rhaid i'r trefniant i fod yn un gwerth am arian ac y byddai yn rhaid i gontractwyr feddu ar drwydded i weithio ar briffyrdd. Mynegwyd consyrn bod un Cyngor cyfagos yn derbyn gwasanaeth gan gontractwyr o bell ac nad oedd hyn yn ymddangos yn ymarferol. Byddai modd ystyried cyd-weithredu mewn partneriaeth gyda Chyngorau lleol eraill er mwyn arbed/rhannu costau ar gyfer y gwaith. Yn ogystal â'r torri gwair roedd sefyllfa y toiledau cyhoeddus a'r meinciau cyhoeddus yn faterion o gonsyrn.

Cytunodd Ms Davies hefyd ddanfôn i'r Clerc wybodaeth am ffynhonnellau ariannol a fedr gynorthwyo gyda phrosiectau yn y dyfodol ee y Loteri, Arloesi Gwynedd Wledig.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Davies am ei phresenoldeb ac am y cyfle i drafod y materion yma.

Penderfynwyd i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf ar ôl derbyn manylion y costau gan Gyngor Gwynedd.

### **5-11/16: Cadarnhau cofnodion mis Hydref**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cyfrifon yn unol â'r gyfraith.

## 6-11/16: Eitemau brys ac er gwybodaeth

- **Lawnsiad Cynllun Gwobrau Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru.** Nodwyd bod y gwobrau yn gyfle i gynghorau arddangos y gwasanaethau a ddarparir i'w cymuned ac yn gyfle i gynghorwyr, clerod a staff dderbyn y gydnabyddiaeth maen nhw'n ei haeddu. Roedd wyth o gategorïau gwahanol: adroddiad blynyddol gorau, prosiect amgylcheddol gorau, gwefan orau, menter ymgysylltu cymunedol orau, menter gynaliadwyedd orau, ymgysylltu ieuencid gorau, gwasanaeth Cyngor lleol y flwyddyn. Nodwyd y byddai y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- **Lôn Merllyn – a'r lôn gyferbyn â tafarn y Castell a'r stesion.** Nodwyd bod gwybodaeth wedi dod drwy law y Cynghorydd Eirwyn Williams bod Cyngor Gwynedd yn cadarnhau ar 7 Tachwedd bod yr arwydd stryd newydd wedi cyrraedd y depo gyda'r bwriad o'i godi mewn ychydig ddyddiau. Hefyd ei bod wedi derbyn pris gan contractwr lleol am osod tarmac ar ddarn o Ffordd y Stesion a nawr yn disgwyl amserlen gan y contractwr.
- **Cysgodfannau:** Nodwyd bod cadarnhad wedi dod gan Huw Davies, Swyddog Bwrdeistrefol Pwllheli bod cysgodfannau Cyngor Gwynedd wedi derbyn sylw ac yn awr yn barod i gael eu paentio yn ôl cynnig diweddar y Cyngor. Roedd y Cyngor wedi derbyn pris o £1100 gan contractwr i wneud y gwaith a nodwyd bod angen cytuno ar y lliw paent. Bydd ystyriaeth o hyn a phenderfyniad ar y lliw yn y cyfarfod nesaf er mwyn medru bwrw mlaen gyda'r gwaith pan bydd y tywydd yn caniatu.
- **Cyngor Gwynedd: Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd Tachwedd 2016** – Gwasanaeth Priffyrdd Caffi Cwrt, Criccieth – sianel (draeniad)
- **Cyngor Gwynedd – Gohebiaeth ar Newid yn Nhrefniant Ad-Daliad Costau Cynnal Llwybrau Cyhoeddus:** derbyniwyd lythyr gan Dafydd Wyn William yn dilyn fyny o'r lythyr ym Mis Mai eleni yn egluro'r newid i'r trefniant ad-dalu costau cynnal llwybrau cyhoeddus yn sgîl y sefyllfa ariannol yn y Cyngor. Roedd y llythyr yma yn egluro y bydd £110,000 yn cael ei dorri o gyllideb y gwasanaeth hawliau tramwy dros ddwy flynedd. Ar gyfer 2017-18 roedd y Cyngor wedi penderfynu clustnodi uchafswm o £35,000 sef hanner cyfartaledd y blynyddoedd diweddar ar gyfer ad-dalu costau'r Cynghorau Cymuned. – a doedd dim addewid ar gyfer y blynyddoedd dilynol ac mi fydd y Cyngor yn adolygu y sefyllfa mewn blwyddyn. Roedd y Cyngor yn nodi pwysigrwydd cadw cydbwysedd rhwng defnyddio'r gyllideb i gefnogi gwaith y Cynghorau Cymuned a Thref a sicrhau bod cyllideb ddigonol gan y gwasanaeth i gynnal y rhwydwaith, gan flaenoriaethu llwybrau categori 1 a 2, gyda chyllideb llai na'r hyn a fu yn y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny roedd y Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi y rôl bwysig mae Cynghorau Cymuned a Thref wedi ei chwarae dros y blynyddoedd i sicrhau fod llwybrau pwysig yn eu cymunedau yn hygyrch. Roedd y Cyngor yn dal yn awyddus i gydweithio gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref – ac yn holi os oedd Cyngor Criccieth am gymryd rhan yn y trefniant ad-dalu yn 17/18 neu beidio. Mae holiadur i'w lenwi a holi barn am opsiynau ar gyfer y dyfodol – ac maent wedi gofyn am ateb erbyn 9 Rhagfyr 2016  
Nodwyd bod y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda swyddfa Dafydd Wyn Williams ac ei bod yn hapus i dderbyn ymateb yn dilyn cyfarfod nesaf y Cyngor ar 12 Rhagfyr.

- **Cyngor Gwynedd** – nodi bod yna ddigwyddiad yng Nghapel y Drindod, Pwllheli ar ddydd Mercher 16 Tachwedd o 10.30 hyd 13.30 – i gael gwybod sut i arbed arian: cyllid y cartref, arbed arian ar eich biliau ar y wefan a tipiau ar gyfer siopa Dolig.
- **Neges gan Comisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:** sydd wedi cyhoeddu adroddiad “Siarad Cenedlaethau'r Dyfodol: y sgwrs hyd yn hyn” yn dilyn nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled Cymru i gasglu gwybodaeth ynglyn â beth sydd angen i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i find i'r afael â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- **Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn :** Yn gysylltiedig â'r uchod, bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Ar gyfer Gwynedd a Môn mae dau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio – Bwrdd Cyhoeddus Gwynedd a Môn – ac mae cyfnod o ymgynghori wedi cychwyn sy'n dod i ben 31 Rhagfyr 2016 -Bu cyfarfod trafod yng Nghriccieth 10 Tachwedd –ac mae holidadur ar gael i'w lenwi. Y nod oedd i geisio darganfod beth mae trigolion yn feddwl am eu hardal a'u cymuned- beth sy'n bwysig, beth sy'n dda a beth sydd angen ei wella. Y gobaith ar ôl yr ymgynghoriad yw y bydd gan y Bwrdd ddarlun cliriach o'n cymunedau, beth sy'n bwysig i bobl yn yr ardal a sut gall y partneriaid gyd-weithio i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Nodwyd y bydd y Cyngor yn ystyried yr ymateb i'r holiadur yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.
- **Llywodraeth Cymru – Gohebiaeth gan Hunaniaith – Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd** Nodi bod gan Hunaniaeth dri digwyddiad i gynorthwyo roi'r Gymraeg ar y brig ac y bydd cyflwyniad a chyfle i rannu syniadau ac ymarfer o dan arweiniad Dafydd Iwan, Cadeirydd hunaniaith ar – 2 Chwefror 2017 yn y Bala, ar 9 Chwefror 2017 yn Oriel Plas Glyn y Weddw ac ar 16 Chwefror 2017 yn Antur Waunfawr. Bydd yr hybysiad o'r digwyddiadau yma ar hysbysfwrdd y Cyngor.

## 7-11/16: Gohebiaeth

### a. **Cyngor Gwynedd – arolwg o'r nifer sy'n cysgu ar y stryd**

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru gynnal arolwg o bobl sy'n cysgu ar y stryd. Bwriad yr arolwg oedd i ennyn gwell dealltwriaeth o'r nifereodd a'r tueddiadau o ran cysgu ar y stryd yn eu hardal. Byddai yn galluogi asiantaethau lleol i ganfod graddau'r broblem, ond byddai hefyd yn cynorthwyo i ddatblygu cynllun i dacio'r broblem mewn ffordd amlasinataethol. Roedd yna holiadur i'w lenwi mewn cydweithrediad â Chymdeithas Tai Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd, ac yn ogystal â'r holiadur, roedd cyfrif y nifer ar y stryd yn ffisegol wedi cymeryd lle ar nos Iau 3 Tachwedd 2016. Cytunwyd i ymateb i gadarnhau nad oedd aelodau'r Cyngor yn ymwybodol bod yna bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghriccieth.

**b. Catrin Glyn – system monitro sbwriel**

Roedd Catrin Glyn, Swyddog Prosiect Ecosystemau Morol yn awyddus i dreialu prosiect bach yng Nghriccieth a nodwyd yn ogystal bod Cyfoeth Naturiol Cymru (yr arianwyr) yn awyddus iawn iddi hi geisio gweithredu rhyw system monitro ar y sbwriel a oedd yn ymgasglu ar y traeth. Gan bod y Marine Conservation Society wedi sefydlu system fel hyn yn barod, yn lle ail ddyfeso'r olwyn, roedd yn gwneud synnwyr i ddefnyddio yr un dull ar gyfer y gwaith a oedd yn golygu monitro 50m o'r traeth gan gynnal arolwg tua dwy waith y flwyddyn. Er mwyn gwneud y gwaith byddai yn rhaid chwilio am wirfoddolwyr ac ati. Y bwriad yw rhoi dau arwydd i fyny yn egluro wrth bobl beth sydd yn mynd mlaen a rhoi rhain o gwmpas 50m ar bostion Network rail. Cytunodd y Cyngor i gefnogi y gwaith a'i bod yn hollol briodol i alw y prosiect yn un cymunedol.

**c. Llywodraeth Cymru- Ymgynghoriad ar Strategaeth newydd y Gymraeg**

Esboniwyd bod gwahoddiad wedi dod i gyfrannu at ymchwiliad i strategaeth newydd y Gymraeg a gafodd ei lawnsio ar 1 Awst. Daeth yr ymgynghoriad yma i ben ar 31 Hydref. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi penderfynu ei bod yn amser delfrydol i gynnal ymchwiliad i'r strategaeth newydd. Nod yr ymchwiliad yw rhoi trywydd ar gyfer y strategaeth newydd a dylanwadu arni yn y cyfnod cynllunio hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai un o'i prif amcanion yw creu gweithlu sydd a'r sgiliau priodol i addysgu a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, felly bydde nhw yn hoffi clywed barn am y canlynol:

- Gwellu'r modd o gynllunio'r gweithlu a chefnogi ymarferwyr ym mhob cyfnod yn y maes addysg; a
- Sicrhau gweithlu digonol ar gyfer addysgu tryw gyfrwng y Gymraeg ac addysgu Cymraeg fel pwnc.
- Nodwyd bod angen i ymatebion gael ei cyflwyno erbyn 30 Tachwedd 2016.

Er bod y Cyngor yn llwyr gefnogol i fwriadau y Strategaeth nid oedd am ddanfon ymateb fel corff. Nodwyd bod croeso i unigolion ddanfon ymateb i'r ymchwiliad.

**8-11/16: Ceisiadau Cynllunio**

a. C16/1303/35/CR

Gosod gwydriad eilradd Plas Bryn Hir, Criccieth, LL52 0AR

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

b. C16/1260/35/LL

Cau drws a ffenestr bresennol, gosod ffenestr to newydd ynghyd a gosod ramp, grisiau ac ardal 'decking' newydd Canolfan Wybodaeth Ymwelwyr Castell Criccieth, Castle Street Criccieth LL52 ODP

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

c. C16/1120/35/YA

Hysbysiad o flaen llaw i godi sied amaethyddol Mynydd Ednyfed Fawr, Criccieth LL52 OHP

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

ch. C16/1394/35/AM

Cais amlinell i adeiladu 3 caban gwyliau Mynydd Ednyfed Fawr Criccieth LL52 OPH

Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth gan y perchnogion yn nodi ei bwriad o ddatblygu brand newydd a Chymreig yn y farchnad llety gwyliau gydag adnoddau hamdden yr yr ardal ac hefyd prospectws am y datblygiad. Yn ogystal roedd llythyrau o gefnogaeth wedi cael eu cyflwyno gan: NFU Cymru, Pwyllgor Clwb Golff Criccieth, a dau aelod o glwb golff Criccieth

Penderfyniad: yn dilyn pleidlais gydag un aelod yn ymatal, ac un arall ddim yn pleidleisio, gwrthodwyd y cais oherydd polisi y llywodraeth i wrthwynebu datblygiad newydd.

d. C16/1348/35/LL

Ail gyflwyniad o gais a wrthodwyd o dan C16/0711/35/LL ar gyfer newid defnydd i lety aml feddianaeth Min y Gaer Criccieth LL52 OHP

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ar yr amod bod y llety ar gyfer staff yn unig.

### **9-11/16 Ymgynghoriad Datblygiad Tir gyferbyn Gwesty'r George, Criccieth**

Nodwyd bod y cynlluniau ar gyfer cynllunio amlinellol a'i fod yn ymgynghoriad cyn cyflwyno cais i Gyngor Gwynedd: Bwriad y datblygwyr oedd adeiladu newydd – datblygiad o 13 o dai tref a 24 o fflatiau gyda manau penodol ar gyfer casglu sbwriel, storio beiciau a pharcio gan gynnwys parcio ar gyfer gwesteion Gwesty y George, unedau siopa newydd gan gynnwys archfarchnad canolig ei maint (tua 4000 troedfeddu sgwar) a gardd newydd gyhoeddus gyferbyn â gwesty y George gyda man gweld panoramic yn edrych dros y castell a'r arfordir. Roedd y cynlluniau yn cynnwys darn i gerddwyr rhwng y maes parcio o dan y stryd fawr a hefyd gwell cyswllt cerdded rhwng y maes parcio ar gyfer gwesty George a'r undedau manwerthu a'r ardd gyhoeddus a man gweld:

Penderfyniad: gwrthod oherwydd roedd y Cyngor yn bryderus am yr effaith y byddai unedau manwerthu yn eu cael ar fusnesau cyfredol.

### **10-11/16: Is-bwyllgor Cyllid**

Cyfarfu y pwyllgor ar 31 Hydref i dderbyn adroddiad cyllid gan y Clerc blaenorol ar incwm a gwariant 2016/17 i fyny tan ddiwedd Medi 2016. Argymhellwyd i'r Cyngor i bennu'r un cyllideb a phraesept ar gyfer 2017-18.

Trafodwyd rhestr o brosiectau posib ar gyfer Cynllun Gweithredu i'r Cyngor.

Penderfynwyd gofyn am bris i ychwanegu at y goleuadau Nadolig.

Cynhelir y cyfarfod nesaf – 6 Mawrth 2017.

### **11-11/16: Pennu cyllideb a phraesept 2017-18**

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid i gadw y praesept ar yr un lefel â'r flwyddyn gyfredol (gweler 10-11/16).

### **12-11/16: Cynllun Gweithredu a Phrosiectau**

Yn dilyn cyflwyniad Cerys Thomas yn y cyfarfod diwethaf, penderfynwyd sefydlu Pwyllgor Llywio ar gyfer y Cynllun Gweithredu, gyda'r bwriad os yn bosib o gwblhau rhai o'r prosiectau llai cyn diwedd Mawrth 2017. Un elfen allweddol ar gyfer cychwyn y gwaith yma oedd paratoi briff er mwyn mynd i dender ar gyfer cyflawni y gwaith yma. Cytunwyd ar yr aelodaeth: Cyng Robert Cadwalader, Cyng Sian Williams, Cyng Phil Jones, Cyng Elizabeth Regan a'r Cynghorydd Elizabeth George, gyda'r Clerc yn bresennol. Dylai'r Pwyllgor Llywio gwrdd cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor er mwyn adrodd nôl. Nododd y Clerc ei bod eisoes wedi cysylltu gyda Llais Cymru am wybodaeth ac roedd yn aros am adborth.

### **13-11/16: Goleuadau Nadolig**

Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi penderfynnu gofyn am bris i ychwanegu at y goleuadau Nadolig ac 'roedd y Clerc wedi danfon cais at RJ Electrics i ofyn am hyn. Nid oedd ymateb wedi cyrraedd a phenderfynwyd dirprwyo y cyfrifoldeb i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. Trafodwyd hefyd y syniad o rhoi fwy o goed Nadolig i fyny'r stryd fawr ar gyfer y dyfodol a chytunwyd trafod y mater yma yn y cyfarfod nesaf.

### **14-11/16: Llwybr o Benaber i'r Parc**

Roedd gohebiaeth wedi ei dderbyn gan Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i gadarnhau bod Cyngor Gwynedd yn gweithio ar gostau ac roedd y clerch newydd gael ebost gan Steffan Jones yn nodi cost o £1950 i ddelio gyda'r broblem dŵr. Byddai llythyr yn dilyn gyda fwy o fanylion. Cytunodd y Cyngor i gyfrannu at hanner y gost o wneud y gwaith yma.

### **15-11/16: Torri gwair**

Yn dilyn y drafodaeth gydag Anwen Davies ar gychwyn y cyfarfod mi fydd y Cyngor yn trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf ar ôl derbyn y wybodaeth am gostau gan Cyngor Gwynedd.

### **16-11/16: Ymgynghoriad ar gyflwyno cyfyngiadau parcio yng Nghriccieth**

Cafwyd hysbysiad dyddiedig 19 Hydref bod gwasanaeth Rheoleiddio Cyngor Gwynedd yn ystryied cyflwyno cyfyngiadau parcio yng Nghriccieth. Ystyriwyd y cynlluniau.

Penderfyniad: dim gwrthwynebiad

Nodwyd y byddai Iwan ap Trefor, Uwch Peiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd yn mynychu y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar 12 Rhagfyr er mwyn trafod y problemau parcio a thrafnidiaeth.

### **17-11/16: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol**

Nodwyd bod y Cyngorydd Eirwyn Williams wedi derbyn y wybodaeth yma oddiwrth Hywel James, Prif Lyfrgellydd, Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd ynglyn ag ail leoli Llyfrgell Gyhoeddus y dref yng Nghanolfan Encil y Coed:

- Bod cynllun diwygiedieg wedi ei dderbyn gan y cwmni sydd yn arbenigo mewn silffoedd hyblyg i leoliadau cymunedol, ynghyd â'r costau
- Bod disgwyl cadarnhad gan Bennaeth Gwasanaethau Oedolion y Cyngor fod y Cynllun Diwygiedig hwn yn dderbyniol i'r gwasanaeth cymunedol i bobl hŷn
- Gofynnwyd i'r Gwasanaeth Eiddo asesu cost cyfraniad y Gwasanaeth Llyfrgell i gostau cynnal y ganolfan – mae hyn fel arfer yn seiliedig ar arwynebedd llawr
- Cadarnhad fod cais cyfalaf wedi ei gyflwyno ar gyfer costau dodrefnu a chyfarpar a byddai angen derbyn cadarnad o unrhyw addasiadau sydd angen i'r adeilad
- Cadarnhad hefyd o ran amserlen ei bod yn fwiad symud y llyfrgell erbyn diwedd Mawrth 2017 ond mae'n debygol iawn na fydd yr adeilad yn cael ei waredu yn syth wedyn. Byddai angen i'r Gwasanaeth wagio'r adeilad cyn ei drosglwyddo i gymynroddwr y tir neu ei gynrychiolwyr – er nad oedd y broses gyfreithiol hon yn debygol o fod yn un sydyn iawn dylai'r Cyngor Tref serch hynny amcanu i ddarffanofd lleolliad arall i gynnal cyfarfodydd, i gadw offer dal cofnodion a gwagio islawr (basement) yr adeilad mor fuan â phosib wedi hyn
- 

Cytunwyd i gadw y drafodaeth am y mater yma ar y rhaglen nesaf er mwyn sicrhau y bydd popeth yn ei le erbyn diwedd Mawrth 2017.:

### **18-11/16: Llwybrau cyhoeddus**

Adroddwyd bod pris o £1800 newydd ei dderbyn gan Steffan Jones Cyngor Gwynedd ar gyfer gwella y stepiau ger Abereistedd. Cytunodd y Cyngor i gyfrannu hanner y gost o wneud y gwaith yma

### **19-11/16 Caëdig: Cytundeb y Clerc**

Arwyddwyd cytundeb y Clerc gan y Cadeirydd a'r Clerc.

### **20-11/16: Derbyniadau**

Dim

### 21-10/16: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE) Hydref	£76.80	(siec 101027)
• Cyflog y Clerc (Hydref)	£306.70	(siec 101028)
• Costau'r Clerc (Ebrill i Hydref)	.....£495.83)	(siec 101029)
• Argraffdy (DM Roberts) argraffu papur pennawd )	.... £69.60	(siec 101030)
• Torch Flodau Sul y Cofio (RBL Poppy Appeal)	£20.00	(siec 101031)

Rhodddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau.

### 22-10/16: Llythyr Diolch i'r Cyn Clerc

Cytunodd y Cyngor i ddanfôn llythyr o ddiolch i'r cyn Clerc am ei gwaith a'i gwasanaeth da yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 12 Rhagfyr 2016, am 7.00 o'r gloch**

**\*\* Bydd y rhaglen yma yn cau 3 Rhagfyr 2016 \*\***

---